

Cawsom ddiwrnod gwyh yn y goedwig ddydd Sul. Roedd hi'n llaith ac ni ddaeth yr haul drwy'r cymylau, ond doedd hynny ddim yn bwysig; mwynhaodd y gwirfoddolwyr y profiad. Wrth rannu flapjacks blasus Tracey a fy pei afalau i ar ôl ychydig oriau o waith yn y bore, roeddem i gyd yn sgwrsio ac yn chwerthin, ac yn hapus i fynd allan unwaith eto.

Rhaid cyfaddef, fodd bynnag, na wnes i lawer o waith mewn gwirionedd. Roeddwn i'n rhy brysur yn crwydro'r llwybrau gyda Glyn, bachgen sylwgar iawn a dynnodd sylw at bob math o bethau diddorol na fyddwn i efallai wedi'u gweld. Mae pobl o bob oed yn dod i'r goedwig ar ddiwrnodau gwirfoddoli: rydw i o leiaf wyth gwaith yn hŷn na Glyn, ond does dim ots am hynny. Mae'r ddau ohonom yn cael ein swyno gan yr amrywiaeth o fywyd sy'n ffynnu yn y goedwig. Bellach, gyda glaw'r hydref wedi cyrraedd, mae ffyngau i'w gweld ym mhobman. Ni chawsom daith chwilio ffurfiol am ffyngau eleni ac ni allem adnabod popeth a welsom, ond bydd y rhan fwyaf o bobl yn adnabod y 'fly agaric' (*Amanita muscaria*) coch a gwyn. Daethom o hyd i sbesimen hardd – edrychwch ar y 'sgert' ruffles o amgylch y coesyn! Ond ni fyddwn yn ei fwyta; byddai'n ein gwneud yn sâl iawn. Y ffyngau mwyaf cyffredin a welsom oedd 'brown roll rims' (*Paxillus involutus*): Hyll. Gwenwynig. Osgoi. Ond roedd yna hefyd 'tawny grisettes' (*Amanita fulva*), sy'n hardd ac yn flasus. Roedd llawer o'r madarch wedi'u bwyta'n rhannol, yn ôl pob tebyg gan lygod, ac efallai gan wiwerod hefyd. Maen nhw'n gwledda yn y goedwig ar hyn o bryd, gan storio braster i baratoi ar gyfer y gaeaf. Mae digonedd o gnau castan hefyd; rhy fach i bobl eu casglu, ond perfffaith i anifeiliaid bach y goedwig sy'n aros yn gudd tra rydyn ni'n cerdded drwodd yn swnllyd, ond yn brysio allan i fwyta pan maen nhw'n meddwl ein bod ni wedi mynd. Mae digon o fwyd i bawb.

Mae'r adar yn gwledda ar doreth o aeron yn ogystal â chnau. Yr hyn sydd ei angen ar yr adar gan bobl yw blychau nythu, oherwydd bod y rhan fwyaf o'n coed yn rhy ifanc i gynnig lleoedd diogel addas i adar nythu. Yn ffodus, gwnaeth y gwirfoddolwyr nifer fawr ohonynt ddydd Sul, a gall unrhyw un ofyn am osod blwch nythu adar coffa yn y goedwig yn gyfnewid am gyfraniad bach. Cysylltwch â'r swyddfa os oes gennych ddiddordeb.

Er fy mod i wrth fy modd gyda'r holl fywyd gwyllt yn y goedwig, rwy'n ymwybodol nad yw pawb yn teimlo'r un ffordd. Gwyddom na allwn

blesio pawb. Pan sefydlwyd Y Goedwig Dragwyddol, ein nod oedd cynnig claddedigathau mewn coedwig wyllt, a dyna sydd gennym; mae pob cytundeb yn nodi y bydd beddau'n cael dychwelyd i gyflwr naturiol – a gall hynny olygu mieri a llystyfiant trwchus, anniben. Nid yw'n golygu bod popeth yn daclus. Mae natur yn casáu trefn a thaclusrwydd.

Nid yw hyn yn achosi problemau i bobl sy'n caru natur; os ydyn nhw eisiau clirio'r mieri oddi ar fedd rhywun annwyl, byddan nhw'n gwneud hynny, neu gallant ddewis gadael i bopeth dyfu'n wyllt ac heb ei reoli. Mae

Glyn hefo 'Fly Agaric'

hynny'n iawn gennym ni. Nid yn unig na all yr Elusen fforddio talu i gadw'r tir yn glir, ond byddai hynny'n groes i'n holl athroniaeth. Byddwn yn ceisio helpu os na allwch ddod o hyd i fedd rhywun annwyl yng nghanol y llystyfiant

trwchus, ond deallwch mai chi sy'n gyfrifol am ei gadw'n rhydd rhag mieri a llystyfiant arall, os dyna rydych chi am ei wneud. Nid mynwent gonfensiynol yw Noddfa Boduan; coedwig naturiol ydyw. Dyna pam mae pobl yn dewis claddu eu hanwyliaid yno. Nid ydym yn caniatáu unrhyw beth nad yw'n frodorol i'r ardal. Nid ydym yn caniatáu i bobl ddod â phlanhigion na gwrthrychau

Cnau wedi bwyta

addurnol i'w gadael ar feddau. Nid ydym am i bobl farcio beddau mewn unrhyw ffordd, ac eithrio drwy osod carreg fedd syml a garw o'r math rydym yn ei ddarparu. A byddwn yn tynnu gwrthrychau nad ydynt yn cyd-fynd â choetir naturiol. Ond rydym yn gwneud ein gorau glas i gadw'r llwybrau ar agor fel y gall unrhyw un ymweld ar unrhyw adeg, a mwynhau heddwch a rhyfeddod y goedwig. Gallwch chi helpu!

Y diwrnod gwirfoddoli nesaf yw'r 1af o Dachwedd – Gŵyl yr Holl Saint yn y traddodiad Cristnogol. Diwrnod i anrhydeddu'r meirw ydyw, a byddwn yn gwneud hynny drwy ofalu am y safle claddu hardd hwn. Byddwn yno rhwng 11 ac 3, a bydd bwyd a diod i'w rhannu. Dewch draw os gallwch.

Bella



Tawny Grisettes



Tai adar